

**CYNLLUN IAITH GYMRAEG  
A BARATOWYD  
DAN DDEDDF YR IAITH GYMRAEG  
1993**

Fel a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg  
dan Adran 14 (1) y Ddeddf ar 29/01/2010. Mae'r cynllun hwn yn disodli'r cynllun a  
gymeradwywyd gan y Bwrdd ar 10 Mehefin 2005



Mae Dŵr Dyffryn Dyfrdwy wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddiad cyfiawnder yng Nghymru, yn ymdrin â'r Saesneg a'r Gymraeg ar sail cydraddoldeb. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

## **CYNNWYS Y CYNLLUN**

### **1 RHAGARWEINIAD**

- 1.1 Dŵr Dyffryn Dyfrdwy
- 1.2 Nodau ac amcanion

### **2. CYNLLUNIO A CHYFLENWI GWASANAETH**

- 2.1 Polisiâu a mentrau newydd
- 2.2 Cyflenwi gwasanaethau
- 2.3 Safon y gwasanaeth yn Gymraeg
- 2.4 Diffiniad
- 2.5 Y Cynllun

### **3. YMDRIN Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG**

- 3.1 Gohebiaeth ysgrifenedig
- 3.2 Cyfathrebu dros y ffôn
- 3.3 Cyfarfodydd cyhoeddus
- 3.4 Cyfarfodydd eraill

### **4. WYNEB CYHOEDDUS Y CWMNI**

- 4.1 Hunaniaeth gorfforaethol
- 4.2 Arwyddion
- 4.3 Cyhoeddi ac argraffu deunydd ar gyfer ei ddosbarthu
- 4.4 Gwefannau
- 4.5 Datganiadau i'r wasg
- 4.6 Hysbysebu a chyhoeddusrwydd
- 4.7 Hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus
- 4.8 Hysbysebu ar gyfer recriwtio staff

### **5. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN**

- 5.1 Staffio
- 5.2 Dysgu Cymraeg
- 5.3 Recriwtio
- 5.4 Hyfforddiant galwedigaethol
- 5.5 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- 5.6 Trefniadau gweinyddol
- 5.7 Gwasanaethau ar ran y Cwmni gan bartïon eraill
- 5.8 Monitro
- 5.9 Adolygu a diwygio'r cynllun
- 5.10 Cwynion ac awgrymiadau i wella
- 5.11 Cyhoeddi gwybodaeth

### **6. CYHOEDDUSRWYDD**

**Atodiad A – Prif dargedau ar gyfer gweithredu'r cynllun**

## 1. **RHAGARWEINIAD**

### 1.1 **Dŵr Dyffryn Dyfrdwy**

Ffurfiwyd Dŵr Dyffryn Dyfrdwy ym 1997 gydag uno'r cwmnïau blaenorol, y 'Chester Water Company' a'r 'Wrexham Water Company'.

Cwmni cyflenwi dŵr yn unig yw Dŵr Dyffryn Dyfrdwy, ac nid yw'n ymdrin â chael gwared ar garthffosiaeth a/neu â thrin carthffosiaeth. Mae'n hardal gyflenwi yn ymestyn dros 831 cilomedr sgwâr yng Ngogledd Ddwyrain Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr ac rydym yn cyflenwi o gwmpas 70 miliwn litr o ddŵr y dydd i boblogaeth o dros 262,000 o bobl.

Mae prif swyddfa'r Cwmni'n agos at Wrecsam. Ein prif gyfrifoldeb yw gweithredu a chynnal ein rhwydwaith o asedau i sicrhau cyflenwad dibynadwy o ddŵr yfed ar gyfer ein cwsmeriaid.

Mae Dŵr Dyffryn Dyfrdwy'n amcanu darparu ar gyfer ei gwsmeriaid gwasanaeth o'r un safon uchel yn Gymraeg a Saesneg.

### 1.2 **Nodau ac Amcanion**

1.2.1 Yn ei ymwneud â'r cyhoedd ac wrth arfer y drefn ddemocrataidd, bydd y Cwmni'n trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb. Bydd i'r ddwy iaith yr un statws a dilysrwydd.

1.2.2 Bydd Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yn:-

- cynnig i'r cyhoedd yng Nghymru'r hawl i ddewis pa iaith i'w defnyddio yn eu hymwneud â'r sefydliad;
- cydnabod y gall aelodau o'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith;
- cydnabod fod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'u dewis iaith yn fater o arfer da, nid yn gonsesiwn;
- cydnabod y gallai gwadu iddynt yr hawl i ddefnyddio'u dewis iaith osod aelodau o'r cyhoedd dan anfantais wirioneddol.

## 2. CYNLLUNIO A CHYFLENWI GWASANAETH

### 2.1 Polisiau a Mentrau Newydd

- 2.1.1 Bydd unrhyw gynlluniau, mentrau neu bolisiau newydd a gânt eu ffurfio gan y Cwmni yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun hwn. Fe gyfeirir at y Cynllun hwn, lle bo hynny'n berthnasol, yng nghynlluniau, mentrau a pholisiau'r Cwmni. Bydd y Cwmni'n asesu canlyniadau ieithyddol tebygol unrhyw bolisi neu fenter yn ystod paratoi a monitro'r fenter bolisi honno.
- 2.1.2 Bydd y Cwmni'n ymgynghori gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynghylch unrhyw bolisiau neu fentrau a allai effeithio ar Gynllun Iaith Gymraeg y Cwmni neu gynllun sefydliad arall. Ni fydd y Cynllun yn cael ei ddiwygio heb gytundeb y Bwrdd.
- 2.1.3 Bydd cyflwyno polisiau a mentrau newydd yn galluogi'r Cwmni i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn ei wasanaethau ac i gamu ymlaen tuag at gyflawni amcanion y Cynllun hwn. Bydd y Cwmni'n hyrwyddo'r amcanion hyn ar bob cyfle er mwyn cynorthwyo i weithredu egwyddor cydraddoldeb.
- 2.1.4 Bydd y mesurau a ddisgrifir yn y Cynllun yn cael eu gweithredu ynglŷn â pholisiau a mentrau newydd. Sicrheir fod aelodau o'r staff ac eraill sy'n ymwneud â'u llunio ac â'u gweithredu yn ymwybodol o'r Cynllun ac o ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg.
- 2.1.5 Caiff canllawiau a chyfarwyddiadau eu paratoi ar gyfer pawb o'r staff sy'n gyfrifol am bolisiau a mentrau newydd.
- 2.1.6 Bydd y Cynllun hwn yn cael ei fonitro gan Banel Iaith Gymraeg y Cwmni dan Gadeiryddiaeth un o'r Uwch Reolwyr.

### 2.2 Cyflenwi gwasanaethau

- 2.2.1 Amcan y Cwmni yw darparu gwasanaeth cyson a dibynadwy ar gyfer siaradwyr Cymraeg ar draws yr holl adrannau a meysydd gwasanaeth. Yn y meysydd hynny o weithgarwch y Cwmni lle mae'r gofyn am wasanaeth yn Gymraeg yn debygol o godi'n anaml, bydd y Cwmni'n trefnu i gwsmeriaid gael mynediad at wasanaeth yn Gymraeg pan fydd ei angen.
- 2.2.2 Tra gall hi fod yn anymarferol i drefnu fod pob gwasanaeth ar gael yn gyflawn yn y Gymraeg, yn enwedig rhai gwasanaethau arbenigol a thechnegol, y bwriad yw darparu gwasanaeth mor gynhwysfawr ag sy'n bosibl, a gwneir pob ymdrech i oresgyn unrhyw anawsterau sy'n codi. Darperir gwybodaeth ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael a sut mae cael mynediad atynt ar gyfer swyddogion nad ydynt yn siarad Cymraeg. Sicrheir fod yr holl staff yn ymwybodol o'r Cynllun, yr ymrwymadau a gynhwysir ynddo, a'r systemau, gweithdrefnau a'r gwasanaethau sy'n bodoli i fodloni'r ymrwymadau hynny.

### 2.3 Safon y gwasanaeth yn Gymraeg

- 2.3.1 Mae gan bob aelod o'r cyhoedd yr hawl i gyfathrebu â'r Cwmni yn eu dewis iaith, p'run ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- 2.3.2 Mae'r Cwmni'n croesawu cyfathrebu yn Gymraeg neu Saesneg ac yn amcanu darparu safon o wasanaeth yr un mor effeithiol yn y ddwy iaith. Bydd yr

egwyddor o ddarparu gwasanaeth o'r un safon uchel yn y ddwy iaith yn cael ei datgan mewn dogfennau allweddol megis cynlluniau busnes a dogfennau polisi.

- 2.3.3 Amcan y Cwmni yw darparu safon uchel o wasanaeth ym mhob agwedd ar waith y Cwmni yn unol ag ymrwymadau'r Cynllun hwn. Mae safonau gwasanaeth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bydd y Cynllun Safonau Gwarantedig yn gweithredu'n gyfartal ar gyfer darparu gwasanaethau yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg.

## 2.4 **Diffiniad**

- 2.4.1 Yng nghyd-destun y ddogfen bolisi hon, y Gymraeg a'r Saesneg yw'r ddwy iaith a olygir pan ddefnyddir y gair "dwyieithog".

## 2.5 **Y Cynllun**

- 2.5.1 Dylai unrhyw un sydd am ddod i gysylltiad â'r Cwmni ynghylch y Cynllun hwn gysylltu â:

Keith G Williams  
Rheolwr Gweithrediadau  
Dŵr Dyffryn Dyfrdwy ccc  
Packsaddle  
Ffordd Wrecsam  
Rhostyllen  
Wrecsam LL14 4EH

Ffôn: 01978 833237  
Ffacs: 01978 846888

### 3. **YMDRIN Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG**

#### 3.1 **Gohebiaeth Ysgrifenedig**

- 3.1.1 Mae croeso i'r cyhoedd gyfathrebu â'r Cwmni yn ysgrifenedig un ai'n Gymraeg neu Saesneg. Atebir gohebiaeth a'i llofnodi gan y Cwmni yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol ac yn unol â'n Cynllun Safonau Gwarantedig.
- 3.1.2 Os yw'r Cwmni'n ymwybodol fod yn well gan unigolyn, grŵp neu sefydliad dderbyn llythyrau yn Gymraeg, yna fe ddefnyddir yr iaith honno mewn llythyrau a anfonir gyntaf gan y Cwmni. Bydd y Cwmni'n trefnu i sefydlu cronfa ddata o bersonau a sefydliadau y mae'n well ganddynt ohebu neu ymwneud a'r Cwmni yn Gymraeg.
- 3.1.3 Yn dilyn cyfweiliad wyneb yn wyneb neu alwad ffôn a ddigwyddodd drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd unrhyw ohebiaeth sydd ei hangen yn cael ei hysgrifennu yn Gymraeg heblaw bod yr aelod o'r cyhoedd wedi nodi'n wahanol.
- 3.1.4 Bydd unrhyw gylchlythyr neu lythyr safonol neu ohebiaeth a anfonir at y cyhoedd yn ddwyieithog oni bai y gwyddys beth yw dewis ieithyddol y derbynnydd.
- 3.1.5 Bydd canllawiau'n cael eu rhoi i'r staff ynglŷn â sut i fodloni ymrwymadau'r Cwmni ynghylch gohebiaeth yn Gymraeg, gan gynnwys manylion gwasanaethau cyfieithu oddi mewn ac oddi allan i'r sefydliad.
- 3.1.6 Bydd Panel Iaith Gymraeg y Cwmni'n gyfrifol am sicrhau fod pawb o'r staff yn ymwybodol o'r trefniadau hyn ac am roi gwybod i'r staff nad ydynt yn siarad Cymraeg am y cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer cyfathrebu yn Gymraeg.

#### 3.2 **Cyfathrebu dros y Ffôn**

- 3.2.1 Mae croeso i bobl siarad Cymraeg neu Saesneg pan fyddant yn ymwneud â'r Cwmni dros y ffôn.
- 3.2.2 Bydd y cyfarchiad cychwynnol ar y switsfwrdd yn ddwyieithog.
- 3.2.3 Os bydd rhywun sy'n galw yn dymuno siarad Cymraeg, bydd y cysylltydd yn cyfeirio'r alwad at swyddog sy'n siarad Cymraeg yn yr adran briodol neu at aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg a fydd efallai'n medru cynorthwyo i gysylltu â'r person cywir i ateb yr ymholiad.
- 3.2.4 Os bydd rhywun sy'n galw yn siarad Cymraeg ac nad yw'r aelod o'r staff sy'n ateb yn gallu siarad Cymraeg, dylai'r aelod o'r staff esbonio nad yw'n gallu siarad Cymraeg a gofyn a yw'r galwr am siarad â rhywun sy'n medru Cymraeg. Os felly, dylid trosglwyddo'r alwad at siaradwr Cymraeg sy'n gallu ymdrin â'r mater neu, os nad oes unrhyw un ar gael, dylid dweud wrth y galwr y bydd y siaradwr Cymraeg yn galw'n ôl cyn gynted ag y bo modd.
- 3.2.5 Darperir canllawiau i'r staff ynghylch ymdrin â galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg, yn cynnwys manylion swyddogion sy'n gallu ymdrin â galwadau yn Gymraeg.

3.2.6 Lle mae hynny'n gymwys, bydd negeseuon ar beiriannau ateb yn ddwyieithog.

### 3.3. **Cyfarfodydd Cyhoeddus**

3.3.1 Byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, neu cyfieithu dilynol, o'r Gymraeg i'r Saesneg yn ein cyfarfodydd cyhoeddus, oni fyddwn yn gwybod y bydd pawb sy'n cymryd rhan yn debygol o ddefnyddio'r un iaith.

3.3.2 Bydd gwahoddiadau a hysbysebion cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog, ac yn nodi naill ai y bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael, neu'n gwahodd y cyhoedd i'n hysbysu ymlaen llaw o'r iaith y dymunant ei siarad.

3.3.3 Byddwn yn hysbysu'r rheini sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus pan fydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael – ac yn annog cyfraniadau yn Gymraeg.

3.3.4 Wrth ddewis staff i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus, byddwn am sicrhau bod siaradwyr Cymraeg cymwys yn mynychu, fel y bo'r angen.

### 3.4 **Cyfarfodydd Eraill**

3.4.1 Mae croeso i gwsmeriaid sy'n ymweld â swyddfeydd y Cwmni drafod eu busnes yn Gymraeg os mae dyna eu dymuniad, a bydd y Cwmni'n gwneud pob ymdrech i sicrhau presenoldeb gweithwyr sy'n siarad Cymraeg i ymdrin ag ymholiadau yn Gymraeg. Os yw'r ymholiad yn ymwneud â mater na all y gweithwyr sy'n derbyn yr ymholiad ymdrin ag ef, gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i weithwyr addas un ai i drafod wyneb yn wyneb neu drwy gyswllt ffôn. Os na ellir gwneud hynny, cynigir y cyfle i'r cwsmer drafod y mater yn Saesneg neu ynteu fe gofnodir yr ymholiad â'i anfon ymlaen at gweithwyr priodol fel y gellir anfon ymateb ysgrifenedig wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg i'r cwsmer.

3.4.2 Ar achlysuron pan wneir apwyntiad i ymweld â chwsmer gartref neu mewn rhyw leoliad arall i ffwrdd o un o safleoedd y Cwmni ac mae'r cwsmer am i'r ymweliad gael ei gynnal yn Gymraeg, fe ddefnyddir gweithwyr sy'n siarad Cymraeg lle bynnag y bo hynny'n ymarferol. Lle nad yw'r gwasanaeth hwn ar gael, trefnir cyswllt dros y ffôn ag aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg.

3.4.3 Os yw aelod o'r staff nad yw'n siarad Cymraeg yn dod i gysylltiad ag aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno siarad Cymraeg, dylai esbonio nad yw ef/hi yn gallu siarad Cymraeg a nodi'n ddiymdroi aelod o'r staff sy'n ddwyieithog i ymdrin â'r mater. Mewn achosion fel hynny pan fo'r aelod o'r staff yn ddsyngwr, anogir yr aelod o'r staff i ddefnyddio ac ymarfer ei Gymraeg/Chymraeg.

#### 4. **WYNEB CYHOEDDUS Y CWMNI**

##### 4.1 **Hunaniaeth gorfforaethol**

4.1.1 Bydd delwedd gyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol y Cwmni'n gwbl ddwyieithog.

4.1.2 Defnyddir hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog y Cwmni ar ei benawdau llythyrau, slipiau cyfarch, taflenni ffacs, cardiau busnes, arddangosiadau a chyhoeddiadau a cherbydau.

4.1.3 Rhoddir canllawiau ynghylch defnyddio'r hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog i staff, dylunwyr ac eraill sy'n atgynhyrchu delwedd gorfforaethol y Cwmni.

##### 4.2 **Arwyddion**

4.2.1 Bydd pob arwydd mewnol ac allanol sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog gyda maint, ansawdd, darllenadwyaeth ac amlygrwydd y testun yn parchu egwyddor cydraddoldeb.

4.2.2 Bydd arwyddion eraill a ddefnyddir gan y Cwmni neu Gontractwyr, megis arwyddion ffyrdd ac arwyddion gwybodaeth i'r cyhoedd, yn ddwyieithog.

4.2.3 Pan fydd Saesneg a Chymraeg yn ymddangos gyda'i gilydd bydd ganddynt statws cyfartal o ran ffurf a bydd y Gymraeg un ai uwchben y Saesneg neu, os yw'r ddwy iaith ochr yn ochr, bydd ar y chwith. Os bydd yn rhaid cyflwyno'r ddwy iaith ar wahân, bydd ganddynt statws cyfartal o ran ffurf, maint ac ansawdd a bydd yr arwydd Cymraeg un ai uwchlaw'r Saesneg neu, os ydynt mewn fformat cyfochrog, bydd ar y chwaith. Ym mhob achos, bydd y ddwy iaith yn gyfartal o safbwynt maint, ansawdd, darllenadwyaeth ac amlygrwydd.

4.2.4 Bydd pob arwydd newydd a godir neu arwyddion a ailosodir gan y Cwmni ar gyfer gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog gyda maint, ansawdd, darllenadwyaeth ac amlygrwydd y testun yn parchu egwyddor cydraddoldeb.

4.2.5 Bydd cyhoeddiadau cyhoeddus yn yr ardal o ogledd ddwyrain Cymru mae'r Cwmni yn gyfrifol am yn ddwyieithog.

##### 4.3 **Cyhoeddi ac Argraffu Deunydd ar gyfer ei Ddosbarthu**

4.3.1 Pan fydd y Cwmni'n argraffu ac yn cyhoeddi deunydd ar gyfer y cyhoedd, ei arfer safonol fydd i wneud hynny'n ddwyieithog.

4.3.2 Bydd y dogfennau a gaiff eu cyhoeddi'n ddwyieithog yn cynnwys y rheiny a ddosberthir neu sydd ar gael ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol ac:

- yn darparu gwybodaeth ar weithgareddau/gwasanaethau'r Cwmni
- yn cyflenwi gwybodaeth benodol ar agweddau o wasanaethau a/neu waith a ddarperir ar gyfer y cyhoedd.

4.3.3 Ar gyfer dogfennau ymgynghorol a anelir at adrannau neu grwpiau penodol o'r cyhoedd, fe benderfynir a gânt eu cyhoeddi'n ddwyieithog neu mewn un

iaith, Cymraeg neu Saesneg, yn ddibynnol ar natur y deunydd â'r gynulleidfa a dargedir.

- 4.3.4 Bydd y cyhoeddiadau a gaiff eu darparu'n ddwyieithog yn cynnwys pamffledi, llyfrynau a chylchlythyrau, yn ogystal ag eitemau argraffedig megis biliau, cardiau apwyntiad ac ati. Os bydd hi'n anymarferol i gynhyrchu fersiwn cwbl ddwyieithog, bydd gan eitemau gynnwys dwyieithog addas lle bo hynny'n bosibl, er enghraifft, crynodeb ddwyieithog a/neu fanylion ynghylch sut i gael fersiwn Cymraeg neu Saesneg.
- 4.3.5 Wrth benderfynu pa ddogfennau a gynhyrchir yn ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y Cwmni'n ystyried materion megis maint a natur y gynulleidfa darged, maint a natur y ddogfen a pha mor eang y bydd yn cael ei dosbarthu, y gost, amseru, y galw tebygol amdani, gwerth am arian a materion eraill.
- 4.3.6 Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, fe gynhyrchir dogfennau gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ynghyd mewn un ddogfen, un ai gefn wrth gefn neu ochr yn ochr.
- 4.3.7 Lle nad yw hynny'n bosibl neu'n briodol, fe gyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mewn achosion felly, bydd y ddau fersiwn o'r un safon, yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd ac yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd, a byddant yr un mor hygyrch â'i gilydd ac yn cynnwys neges bod fersiwn Cymraeg/Saesneg hefyd ar gael.
- 4.3.8 Ceidw'r Cwmni'r hawl i gynhyrchu deunydd mewn fersiwn iaith sengl yn unig yn achos eitemau a gynhyrchir ar gyfer cynulleidfa arbenigol neu eitemau sydd o natur wyddonol neu dechnegol gymhleth.
- 4.3.9 Fe gynhyrchir canllawiau ynghylch y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chyhoeddiadau dwyieithog ar gyfer staff, dylunwyr allanol a chyhoeddwr. Bydd hyn yn cynnwys cadarnhad o'r mathau a chategoriâu o gyhoeddiadau a fydd bob amser yn ddwyieithog, y rhai y gellir eu cyhoeddi ar wahân, a'r rhai y bydd yn rhaid rhoi ystyriaeth iddynt, ynghyd â chynghor ynghylch gosodiad a dyluniad dogfennau dwyieithog.

#### 4.4 **Gwefannau**

- 4.4.1 Bydd ein gwefannau yn cynnwys tudalennau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddwn am ddarparu fersiynau Cymraeg o'r tudalennau rhyngweithiol ar ein gwefannau.
- 4.4.2 Byddwn yn paratoi rhaglen, y cytunir arni gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sy'n nodi sut y byddwn yn cynyddu cynnwys Cymraeg ein gwefan, dros gyfnod o amser.
- 4.4.3 Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu wrth ailddatblygu gwefannau cyfredol, byddwn yn ystyried *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* y Bwrdd ac unrhyw ganllawiau tebyg a gyhoeddir gan y Bwrdd ynglŷn â dylunio gwefannau.
- 4.4.4 Pan fyddwn yn cynnwys cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefannau, bydd y fersiynau Cymraeg yn cael eu cynnwys ar yr un pryd, os ydynt ar gael.

#### 4.5 **Datganiadau i'r Wasg**

4.5.1 Caiff datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Fodd bynnag, mewn achosion brys, gall fod yn angenrheidiol i gyhoeddi datganiadau yn Saesneg yn unig cyn bod y fersiwn Cymraeg ar gael. Mewn achosion felly, fe gyhoeddir fersiwn Cymraeg ar y cyfle cyntaf ar gyfer y cyfryngau Cymraeg.

4.5.2 Cyhoeddir datganiadau i'r wasg ar gyfer y wasg Gymraeg yn Gymraeg.

#### 4.6 **Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd**

4.6.1 Pan fydd y Cwmni'n rhoi cyhoeddusrwydd i'w wasanaethau a'i weithgareddau yng Nghymru drwy gyfrwng arddangosfeydd, arddangosiadau, hysbysfyrddau a chynrychioliadau, bydd yn gwneud hynny'n ddwyieithog. Pan gynhelir y gweithgareddau hyn gan y Cwmni, neu yn ei enw, bydd y deunydd arddangos ynghyd ag unrhyw ddeunydd ategol, megis hysbysiadau, posteri, llenyddiaeth cyhoeddusrwydd a thapiau fideo yn gwbl ddwyieithog. Gall arddangosiadau, fodd bynnag, gynnwys eitemau o lenyddiaeth nad ydynt ar gael yn Gymraeg, neu sydd heb eto wedi cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog neu yn Gymraeg.

4.6.2 Bydd arolygon neu ymchwil marchnata sy'n digwydd o fewn Cymru fel arfer yn ddwyieithog, gan gynnwys deunydd ymholi ac ymateb. Wrth benderfynu a ddylai arolygon lleol fod yn ddwyieithog, bydd y Cwmni'n ystyried materion megis natur y gynulleidfa darged, y gymuned a gwmpasir, a'r pwnc dan sylw.

4.6.3 Fe sicrhewr fod staff ac eraill sy'n ymwneud â chynllunio, dylunio, a gweithredu ymgyrchoedd hysbysebu, cyhoeddusrwydd neu ymchwil marchnata yn ymwybodol o ofynion y Cynllun, a byddant yn derbyn canllawiau ynghylch ei weithredu.

#### 4.7 **Hysbysiadau Swyddogol a Chyhoeddus**

4.7.1 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio staff sy'n ymddangos o fewn i Gymru fel arfer yn ymddangos gyda fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu dangos gyda'i gilydd, ac yn gyfartal o safbwynt fformat, maint, ansawdd, darllenadwyaeth ac amlygrwydd, boed hynny yn y wasg, ar hysbysfyrddau, ar arwyddion safleoedd neu unrhyw le arall. Bydd hysbysiadau a hysbysebion mewn papurau newydd a chylchgronau Cymraeg fel arfer yn Gymraeg yn unig a bydd y rhai a gyhoeddir yn y prif bapurau newydd a chylchgronau ar gyfer y Deyrnas Unedig fel arfer yn Saesneg yn unig.

4.7.2 Heblaw mewn cyhoeddiadau Cymraeg, dylai'r fersiwn Cymraeg fod uwchben y fersiwn Saesneg neu, lle dangosir y testunau gyda'i gilydd, bydd y fersiwn Cymraeg ar y chwith a byddant yn gyfartal o safbwynt fformat, maint, ansawdd, darllenadwyaeth ac amlygrwydd, boed hynny "yn y wasg", ar hysbysfyrddau, neu unrhyw le arall.

4.7.3 Bydd hysbysiadau cyhoeddus swyddogol y Cwmni yn gwbl ddwyieithog mewn fformat cyfochrog gyda'r testun Cymraeg ar y chwith. Lle nad yw hynny'n ymarferol, bydd un testun uwchben y llall, gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Fodd bynnag, dylai'r testunau ym mhob achos fod yn gyfartal mewn

ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd, boed hynny yn y wasg, ar hysbysfyrddau, ar safleoedd neu mewn unrhyw le arall.

#### 4.8 **Hysbysebu ar gyfer Recriwtio Staff**

4.8.1 Bydd pob hysbyseb recriwtio staff a gyhoeddir gan y Cwmni'n ddwyieithog heblaw:

- (a) hysbysiadau a gyhoeddir mewn cylchgronau a phapurau newydd Cymraeg, a fydd yn Gymraeg yn unig.
- (b) Hysbysebion a gyhoeddir mewn cylchgronau a phapurau newydd cyfrwng Saesneg ar gyfer swyddi lle mae medru'r Gymraeg yn gymhwyster hanfodol, a ddylai fod yn Gymraeg gyda nodyn esboniadol byr yn Saesneg.

4.8.2 Bydd pob hysbyseb recriwtio'n ddwyieithog gyda'r testun Cymraeg ar y chwith. Lle nad yw hyn yn ymarferol, bydd un testun uwchben y llall, gyda'r Gymraeg yn uchaf. Ym mhob achos, bydd y testunau yn gyfartal o safbwynt ffurf, maint, ansawdd, darllenadwyaeth ac amlygrwydd.

4.8.3 Darperir canllawiau ar weithredu'r mesurau hyn ar gyfer staff sy'n ymwneud â dylunio a chynhyrchu hysbysiadau cyhoeddus swyddogol a hysbysiadau recriwtio staff.

## 5. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

### 5.1 Staffio

- 5.1.1 Mae'r Cwmni'n cydnabod yr angen i gyflogi digon o weithwyr sy'n siarad Cymraeg ac sydd â'r sgiliau priodol er mwyn gallu gweithredu'r Cynllun hwn, a hynny'n arbennig mewn perthynas â gweithwyr sydd â chyswllt rheolaidd â chwsmeriaid.
- 5.1.2 Bydd y Cwmni'n adnabod y gweithleoedd a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol a bydd yn ffurfio swydd ddisgrifiadau'n unol â hynny. Gellir diffinio'r gofyniad hwn fel elfen mewn gweithle neu dîm yn hytrach na gofyniad sydd ynghlwm â swydd arbennig.
- 5.1.3 Bydd y Cwmni, fel rhan o adolygu gweithrediad y Cynllun, yn monitro'r nifer o siaradwyr Cymraeg neu dysgwyr Cymraeg, a'u lleoliad oddi mewn i'r sefydliad, er mwyn mesur a monitro ei adnoddau ieithyddol. Bydd yn cadw rhestr o'r holl weithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg ac yn sicrhau fod hysbysebion swyddi a swydd ddisgrifiadau yn y cyfryngau yn adlewyrchu gofynion y Cynllun hwn fel sy'n briodol.
- 5.1.4 Mae'r Cwmni'n gyfrifol am ystod eang o wasanaethau a gweithgareddau yn gysylltiedig â chyflenwi dŵr, y mae llawer ohonynt yn gofyn am sgiliau proffesiynol a thechnegol arbenigol ar gyfer eu cyflawni. Ni fydd yn ymarferol i ddarparu'r holl wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ond bydd y staff yn gwneud eu gorau i gynorthwyo'r cyhoedd i dderbyn gwasanaeth o ansawdd da. Yr amcan yw adeiladu cyflenwad o staff fydd yn gallu cynorthwyo'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg, oddi mewn i wasanaeth integredig.

### 5.2 Dysgu Cymraeg

- 5.2.1 Bydd y Cwmni'n cefnogi ac yn cynorthwyo aelodau o'r staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella eu Cymraeg llafar neu ysgrifenedig.
- 5.2.2 Rhoddir y flaenoriaeth o safbwynt hyfforddi i staff yn y meysydd hynny o ddarparu gwasanaeth lle mae yna gyswllt rheolaidd gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg neu lle mae yna brinder wedi ei ganfod yn y nifer o staff sy'n siarad Cymraeg.
- 5.2.3 Bydd Panel Iaith Gymraeg y Cwmni'n datblygu rhaglen hyfforddi yn yr iaith Gymraeg fydd yn bodloni anghenion y Cwmni wrth weithredu'r Cynllun. Bydd y rhaglen hefyd yn ceisio datblygu'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg ymysg y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.

### 5.3 Recriwtio

- 5.3.1 Pan fyddir yn recriwtio staff newydd, bydd yna asesiad o ofynion ieithyddol y swydd.

- 5.3.2 Bydd y Panel Iaith Gymraeg (sy'n cynnwys Rheolwr Personél y Cwmni) yn archwilio anghenion gwasanaeth ac yn canfod y meysydd a ddylai fod yn flaenoriaeth ar gyfer recriwtio siaradwyr Cymraeg er mwyn bodloni gofynion y Cynllun. Wrth wneud hynny, bydd y Panel yn ystyried y sefyllfaoedd lle mae recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol er mwyn darparu gwasanaeth sydd mor gyflawn ag sy'n bosibl. Lle ystyrir gallu ieithyddol yn hanfodol neu'n ddymunol, fe nodir hynny mewn hysbysebion ar gyfer swyddi.
- 5.3.3 Mewn achos lle mae'r Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer y swydd, mae'r swydd yn cael ei hysbysebu felly, gan nodi y bydd disgwyl i unrhyw un nad yw'n siarad Cymraeg a benodir i'r swydd ddysgu'r iaith gyda phob cymorth gan y Cwmni. Bydd hyn yn digwydd o fewn cyfnod rhesymol, a fydd wedi ei drafod a'i gytuno gyda deiliad y swydd, i safon lle bydd ef/hi yn gallu siarad yr iaith yn ddigon da i allu cyflawni gofynion y swydd yn effeithiol. Bydd y cyfnod rhesymol yn cael ei adolygu a'i fonitro gan Bennaeth Personél y Cwmni.
- 5.3.4 Yn achos ymgeiswyr ar gyfer swyddi lle mae sgiliau i gyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg yn gymhwyster hanfodol, os cwyd sefyllfa lle mae dau ymgeisydd yn gyfartal o safbwynt cymwysterau ffurfiol, profiad ac ati, bydd lefel sgiliau dwyieithog yn penderfynu'r canlyniad. Yn achos ymgeiswyr ar gyfer swyddi lle mae'r Gymraeg yn gymhwyster dymunol, a lle mae dau ymgeisydd yn gyfartal o safbwynt cymwysterau ffurfiol, profiad ac ati, mae lefel o sgiliau dwyieithog i'w hystyried yn fantais.

#### 5.4 **Hyfforddiant Galwedigaethol**

- 5.4.1 Bydd Uwch Reolwyr mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Personél yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol penodol drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer staff sydd wedi eu nodi fel siaradwyr Cymraeg yn eu Hadrannau.
- 5.4.2 Lle adnabyddir angen am hyfforddiant galwedigaethol er mwyn hwyluso gweithrediad y Cynllun ac y gellir darparu hyfforddiant addas, fe'i darperir neu roi cymorth ar ei gyfer yn unol â gofynion y gwasanaeth.
- 5.4.3 Bydd darparu hyfforddiant yn cynnwys cyrsiau mewn sgiliau penodol, cyrsiau cynefino mewn rhai arbenigeddau a darparu deunyddiau adnoddau a deunyddiau dysgu o bell pan fydd hynny'n briodol.

#### 5.5 **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**

- 5.5.1 Bydd yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn, yn cael ei adlewyrchu wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
- 5.5.2 Byddwn am addasu ein systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu presennol er mwyn sicrhau eu bod yn ein galluogi i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg – a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Wrth i ni ddatblygu a phrynu systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu byddwn yn ystyried yn llawn *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* y Bwrdd.

## 5.6 **Trefniadau Gweinyddol**

- 5.6.1 Cymeradwywyd y Cynllun gan Fwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni ac mae iddo eu hawdurdod llawn.
- 5.6.2 Y Rheolwr Gyfarwyddwr sydd â'r cyfrifoldeb terfynol dros sicrhau gweithredu'r Cynllun, a bydd yn cyflawni'r ddyletswydd hon drwy sefydlu Panel Iaith Gymraeg.
- 5.6.3 Mae'r Panel yn cynnwys rhai o uwch reolwyr y Cwmni yn cynnwys y Rheolwr Personél. Byddant yn cynghori rheolwyr ynghylch y camau y mae angen eu cymryd i weithredu'r Cynllun oddi mewn i'w hadrannau.
- 5.6.4 Gwneir holl aelodau'r staff yn ymwybodol o ofynion y Cynllun, a darperir canllawiau a chyfarwyddiadau priodol ar eu cyfer.
- 5.6.5 Rhoddir canllawiau i'r staff ynghylch defnyddio gwasanaethau cyfieithu, boed hynny'n fewnol neu drwy asiantaethau allanol.

## 5.7 **Gwasanaethau ar ran y Cwmni gan Bartïon Eraill**

- 5.7.1 Dylai unrhyw gytundeb, trefniant neu contract a gytunir gyda thrydydd parti i ddarparu gwasanaeth ar ran y Cwmni oddi mewn i Gymru gydymffurfio ag amodau'r Cynllun hwn.
- 5.7.2 Wrth drefnu unrhyw contract, bydd y Rheolwr perthnasol yn gyfrifol am sicrhau fod yr asiantaeth, cwmni neu gorff gwirfoddol sy'n ymgymryd â'r gwaith ar ran y Cwmni ar gyfer y cyhoedd yn cydymffurfio ag unrhyw elfennau o'r Cynllun hwn sy'n berthnasol ac yn eu gweithredu. Fe sicrheir hyn drwy gynnwys y manylion perthnasol ynghylch gofynion y Cynllun yn y ddogfen dendro neu'r cytundeb lefel gwasanaeth a anfonir at yr asiantaeth, cwmni neu gorff gwirfoddol.
- 5.7.3 Pan fydd y Cwmni'n comisiynu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd bydd yn sicrhau fod y darpariaethau'n cydymffurfio ag amodau perthnasol y Cynllun hwn.
- 5.7.4 Darperir canllawiau ysgrifenedig ar y gweithdrefnau sydd i'w dilyn ar gyfer staff sy'n ymwneud â pharatoi contractau ac ymdrin â chontractwyr ac asiantau.
- 5.7.5 Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn bydd y Cwmni'n cefnogi, galluogi, hwyluso neu gynorthwyo ceisiadau a sefydliadau a chyrrff eraill i arfer dwyieithrwydd ac i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn eu darpariaethau. Bydd yn gwneud hynny drwy fynegi'r safbwynt hwn mewn unrhyw ddogfennau cais perthnasol a gyhoeddir ar gyfer defnydd y cyhoedd, a fydd yn nodi fod y Cwmni wedi mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd yn darparu gwybodaeth ar gyfer ymgeiswyr ac eraill ynghylch unrhyw ffynonellau cyngor neu gymorth y mae'r Cwmni'n gwybod amdanynt ar faterion megis arfer dwyieithrwydd.

## 5.8 **Monitro**

5.8.1 Bydd y Cwmni'n monitro pa mor dda y mae'n bodloni ei ymrwymadau dan y Cynllun hwn. Bydd Cadeirydd Panel Iaith Gymraeg y Cwmni (Rheolwr Gweithrediadau y Cwmni) yn adrodd yn chwarterol i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni yn y cyfarfodydd rheoli rheolaidd.

5.8.2 Cyfrifoldeb Panel Iaith Gymraeg y Cwmni fydd cydlynu a gweithredu'r Cynllun a'i adolygu a'i ddiwygio. Os gofynnir hynny gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, bydd Cadeirydd y Panel yn paratoi adroddiad y bydd y Cwmni'n ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

5.8.3 Bydd Panel Iaith Gymraeg y Cwmni yn adolygu'r canlynol yn barhaus:

- cynllunio a chaffael ar gyfer y dyfodol – sicrhau fod unrhyw bolisiâu, gweithdrefnau, cyhoeddiadau a rhaglenni cyfrifiadurol yn gyson â darparu gwasanaeth dwyieithog ar sail cydraddoldeb.
- Trefnu a darparu gwasanaethau – monitro gweithredu'r trefniadau a wnaethpwyd i ddarparu gwasanaethau'r Cwmni yn Gymraeg a'u heffeithiolrwydd; monitro pa mor dda y mae'r sefydliad yn annog ac yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg gan bartïon eraill.
- Ymdrin â'r cyhoedd Cymraeg – monitro'r amser a gymerir i ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg, ansawdd gwasanaethau cyfieithu a'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd.
- Wyneb cyhoeddus y Cwmni – monitro gweithredu delwedd gyhoeddus y Cwmni a chyflwyno cyhoeddiadau, ffurflenni, arwyddion, hysbysiadau a deunyddiau argraffedig eraill yn ddwyieithog.
- Staffio – monitro gweithredu'r trefniadau staffio a hyfforddi a gynhwysir yn y Cynllun.
- Asiantaethau a chontractwyr – monitro, gyda'r rheolwr perthnasol, darparu a gweinyddu gwasanaethau gan asiantau a chontractwyr y Cwmni er mwyn sicrhau cydymffurfio â'r gofynion ynghylch yr iaith Gymraeg sydd yn eu cytundebau neu eu trefniadau.
- Cwynion – monitro nifer a natur cwynion yn ymwneud â gwasanaeth iaith Gymraeg y Cwmni. Ymdrinnir â chwynion yn unol â gweithdrefn gwynion y Cwmni.
- Darparu gwasanaeth – gellir cynnal arolygon barn yn achlysurol, yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael, i asesu barn y cyhoedd a chwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg ynghylch yr ystod o wasanaethau a gweithgareddau a gyflawnir gan y Cwmni.

## 5.9 **Adolygu a diwygio'r cynllun**

Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd o'i roi ar waith. Yn ogystal, o bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i ni adolygu'r cynllun hwn, neu gynnig diwygiadau i'r cynllun hwn, oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau, neu i'r amgylchiadau yr ydym yn ymgymryd â'r swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall. Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

## 5.10 Cwynion ac awgrymiadau i wella

Dylid cyfeirio cwynion sy'n ymwneud â'r cynllun hwn, neu awgrymiadau i'w wella, at Keith Williams, yn y cyfeiriad canlynol:

Dŵr Dyffryn Dyfrdwy  
Packsaddle  
Ffordd Wrecsam, Rhostyllen  
Wrecsam LL14 4EH  
neu drwy e-bost at [keith.williams@deevalleygroup.com](mailto:keith.williams@deevalleygroup.com)

Byddwn yn cydweithio efo'r Bwrdd er mwyn datrys cwynion - ac ar unrhyw ymchwiliad a gynhelir o dan Adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

## 5.11 Cyhoeddi Gwybodaeth

5.11.1 Bydd y Cwmni'n cyhoeddi gwybodaeth a fydd yn cymharu perfformiad â'r safonau a'r targedau a ddynodir yn y Cynllun.

5.11.2 Bydd y Cwmni hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth fydd yn cynnwys y canlynol:

- Canran yr ymatebion i ohebiaeth Cymraeg a gyflawnwyd oddi mewn i'r terfynau a ddynodwyd
- Y canran o'r cyhoeddiadau priodol a gyhoeddwyd yn ddwyieithog
- Canran y siaradwyr Cymraeg mewn swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ystyriaeth

5.11.3 Os nad yw'r safonau a gyhoeddwyd yn cael eu bodloni, bydd y Cwmni'n esbonio'r rheswm a pha gamau mae'r Cwmni'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater.

## 6. CYHOEDDUSRWYDD

6.1 Bydd y Cwmni'n rhoi cyhoeddusrwydd i'w Gynllun Iaith Gymraeg ar gyfer y cyhoedd a'i gweithwyr ac asiantau/contractwyr wrth ei gyflwyno ac yn rheolaidd wedyn. Bydd yn sicrhau fod pobl sy'n ymwneud â'r Cwmni yn ymwybodol o'r Cynllun ac o sut y gallant ymwneud â'r Cwmni yn Gymraeg. Bydd yn rhoi gwybod i'r cyhoedd pa wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a lle a phryd y maent neu y byddant ar gael.

Defnyddir y mathau canlynol o gyhoeddusrwydd:

- Hysbysiadau mewn swyddfeydd cyhoeddus, derbynfeydd ac ati
- Cyhoeddi taflen yn rhoi manylion ymrwymiad y Cwmni i'r iaith Gymraeg a'r gwasanaethau sydd ar gael ynddi
- Datganiadau i'r wasg
- Eitemau mewn amrywiol gyhoeddiadau gan y Cwmni
- Darparu gwybodaeth a chanllawiau ar gyfer gweithwyr
- Dosbarthu copïau o'r Cynllun i asiantau a chontractwyr y Cwmni
- Dosbarthu copïau o'r Cynllun i gyrff eraill sydd â diddordeb
- Gwefan y Cwmni

## Atodiad A – Prif dargedau ar gyfer gweithredu'r cynllun

<b>Targed</b>	<b>Dyddiad cwblhau</b>
<b>Polisiau a mentrau newydd</b>	
Sicrhau fod aelodau o'r staff ac eraill sy'n ymwneud â llunio a gweithredu polisiau a mentrau newydd yn ymwybodol o ofynion y cynllun. Bydd canllawiau a cyfarwyddiadau yn cael eu ail ddsbarthu.	<b>2 fis ar ôl cymeradwyo'r cynllun</b>
<b>Gohebiaeth ysgrifenedig</b>	
Diweddarau'r bas data gyda personau a sefydliadau sy'n dymuno cyfathrebu neu delio gyda'r cwmni yn Gymraeg	<b>6 mis ar ôl cymeradwyo'r cynllun</b>
<b>Cyfathrebu dros y ffôn</b>	
Monitro faint o gwsmeriaid sydd yn cysylltu gyda'r cwmni yn Gymraeg dros y ffôn	<b>Parhaol</b>
<b>Cyfarfodydd cyhoeddus</b>	
Cynhyrchu canllawiau i staff sy'n trefnu a mynychu cyfarfodydd cyhoeddus	<b>2 fis ar ôl cymeradwyo'r cynllun</b>
<b>Hunaniaeth gorfforaethol</b>	
Ail ddsbarthu canllawiau ynghylch defnyddio'r hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog i staff, dylunwyr ac eraill sy'n atgynhyrchu delwedd gorfforaethol y Cwmni.	<b>4 mis ar ôl cymeradwyo'r cynllun</b>
<b>Arwyddion</b>	
Bydd cyhoeddiadau cyhoeddus yn yr ardal o ogledd ddwyrain Cymru mae'r Cwmni yn gyfrifol am yn ddwyieithog	<b>12 mis ar ôl cymeradwyo'r cynllun</b>
Cynnal awdit o arwyddion mewnol sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd	<b>6 mis ar ôl cymeradwyo'r cynllun</b>
<b>Gwefan</b>	
Monitro faint o gwsmeriaid sydd yn defnyddio fersiwn Gymraeg y wefan	<b>Parhaol</b>
Gweithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar farchnata'r fersiwn Gymraeg o'r wefan	<b>2 fis ar ôl cymeradwyo'r cynllun</b>
<b>Staffio</b>	
Adnabod gweithleoedd a swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol	<b>4 mis ar ôl cymeradwyo'r cynllun</b>
Monitro nifer y siaradwyr Cymraeg/ dysgwyr Cymraeg	<b>Parhaol</b>
<b>Dysgu Cymraeg</b>	
Adnabod staff sydd am ddysgu Cymraeg	<b>2 fis ar ôl cymeradwyo'r cynllun</b>
Datblygu rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg. Edrych ar ffyrdd o gydweithio gyda sefydliadau eraill yng nogledd ddwyrain Cymru	<b>6 mis ar ôl cymeradwyo'r cynllun</b>
<b>Recriwtio</b>	
Creu cysylltiadau gyda ysgolion cyfrwng Cymraeg yr	<b>Parhaol</b>

ardal er mwyn annog siaradwyr Cymraeg i geisio am swyddi o fewn y cwmni	
<b>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</b>	
Bydd yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg yn cael ei adlewyrchu wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch TGCh	<b>Parhaol</b>
<b>Trefniadau gweinyddol</b>	
Panel Iaith Gymraeg i gynghori rheolwyr ar y camau gofynnol i weithredu'r cynllun.	<b>Pob 6 mis</b>
<b>Gwasanaethau ar ran y Cwmni gan Bartïon Eraill</b>	
Ail ddsbarthu canllawiau ar y gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd gwasanaethau yn cael eu darparu ar ein rhan gan bartïon eraill.	<b>4 mis ar ôl cymeradwyo'r cynllun</b>
<b>Monitro</b>	
Cyflwyno adroddiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ein cydymffurfïad â'r cynllun	<b>Yn flynyddol</b>
<b>Adolygu a Diwygio'r Cynllun</b>	
Adolygu'r cynllun	<b>2014</b>
<b>Cyhoeddusrwydd</b>	
Bydd y cwmni'n hysbysebu'r cynllun mewn amryw ddull fel a nodwyd yn adran 6.1	<b>Parhaol</b>